

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y Cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 5 Mawrth 2021

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Geraint Llyr Davies, CNC

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, FUW

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LIC

Andrew Chambers, LIC

Nichola Salter, CNC

Shane Thomas, CFF

Jamie McCoy, AHDB

Geraint Hamer, LIC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

Katy Simmons, CNC

Lee Price, Cyswllt Ffermio

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Mark Squire, CNC

Meinir Wigley, CNC

Robert Dangerfield, CLA

Dylan Morgan, NFU Cymru

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Dim

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Kate Snow, United Utilities

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Ruth Johnston, CNC

Fraser McAuley, CLA

Mark Alexander, LIC

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau. Sylwch fod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.
 - D.S.: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.
3. Esboniodd y Cadeirydd fod y cyfarfod hwn i fod i gael ei gynnal ar 22 Chwefror 2021 ond fe'i gohiriwyd er mwyn gallu canolbwyntio ar y rheoliadau newydd, sef Rheoliadau

Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Cadarnhaodd Zoe fod Llywodraeth Cymru yn mynd i roi cyflwyniad i'r grŵp a diolchodd i Spencer Conlon ac Andrew Chambers am ddod i'r cyfarfod.

4. Cydnabu'r Cadeirydd fod amrywiaeth barn helaeth ar y rheoliadau a gofynnodd i'r aelodau barchu safbwynt pawb. Mae hwn yn gyfle gwych i sicrhau bod pawb yn deall y rheoliadau, a neilltuwyd amser i drafod a gofyn cwestiynau.
5. Bydd CNC hefyd yn rhoi diweddariad ynghylch y gwaith a wnaed a'r gwaith sy'n parhau er mwyn sicrhau gweithredu'r rheoliadau hyn.
6. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau feddwl am ffermwyr wrth i'r grŵp drafod y rheoliadau, gan fod hwn yn gyfnod llawn straen iddynt. Mae'n bwysig bod y grŵp yn meddwl am roi negeseuon cywir a chyson i ffermwyr i osgoi ychwanegu straen diangen.
7. Dywedodd y Cadeirydd fod y grŵp wedi dweud erioed fod rheoleiddio yn eithriadol o bwysig o ran cyflawni ein nod o ddileu llygredd amaethyddol a chynnal sector amaeth ffyniannus yng Nghymru. Mae'n un o'n pum ffrwd waith ac wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn ystyried sut y mae'r gwaith hwn yn integreiddio â'r meysydd eraill yr ydym yn canolbwyntio arnynt, gan gynnwys addysg, buddsoddi, arloesi, a mentrau a gweithgareddau a arweinir gan ffermwyr.
8. Trosglwyddodd Zoe yr awenau i Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, er mwyn iddo roi cyflwyniad i'r grŵp a chytunwyd y byddai cwestiynau a thrafodaeth yn dilyn y cyflwyniad.

Eitem 2 Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru

9. Diolchodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, i'r Cadeirydd am y gwahoddiad a'r cyfle i roi cyflwyniad i'r grŵp. Nododd Spencer yn benodol fod y cyflwyniad yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r rheoliadau gyda'r nod o ysgogi trafodaeth yn y cyfarfod heddiw, yn hytrach na darparu cofnod ffurfiol o'r hyn sydd ar ddod a phryd y bydd yn digwydd. Atgoffodd Spencer yr aelodau y dylai'r sawl sydd am wirio'r manylion gyfeirio at y rheoliadau eu hunain.
10. Nododd Spencer na fydd rhai agweddau ar y rheoliadau yn cael eu trafod yn y cyfarfod heddiw oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cael 'llythyr cyn hawlio', sy'n rhan o'r Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Adolygiad Barnwrol. Os bydd materion a gwmpesir yn y llythyr hwnnw i Lywodraeth Cymru yn cael eu codi heddiw, bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn y cyngor cyfreithiol ac ni fydd yn eu trafod yn y cyfarfod hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hymateb i'r llythyr ar hyn o bryd.
11. Rhannodd Spencer ac Andrew ffeil PowerPoint â'r grŵp. Rhoddai'r cyflwyniad drosolwg o'r camau gweithredu hyd yn hyn yn 2021:
 - Datganiad ysgrifenedig wedi'i roi gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i gyflwyno'r rheoliadau ar 27 Ionawr 2021
 - Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) gerbron y Senedd

- Cyflwynwyd cynnig o blaid dirymu. Cynhaliwyd trafodaeth ar 3 Mawrth 2021; gwrthodwyd y cynnig
- Mae'r rheoliadau i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill 2021 a chael eu gweithredu fesul cam

12. Dywedodd Spencer ei fod wedi dod i'r cyfarfod heddiw i edrych ymlaen yn hytrach nag edrych yn ôl, a'i fod am gydweithio mewn modd ymarferol a chadarnhaol.

13. Caiff y rheoliadau newydd eu gweithredu fesul cam:

- Bydd tri cham gweithredu:
 - Cam 1 – 1 Ebrill 2021
 - Cam 2 – 1 Ionawr 2023
 - Cam 3 – 1 Awst 2024
- Mae'r rheoliadau'n cynnwys cyfnod pontio er mwyn rhoi amser i ffermwyr addasu lle bydd angen, yn enwedig lle gallai'r rheoliadau ofyn bod isadeiledd yn cael ei wella
- Bydd rhaglen ymwybyddiaeth a gweithgareddau i gefnogi pob cyfnod gweithredu

14. Rhoddodd Spencer drosolwg cryno o'r hyn a fydd yn ofynnol o 1 Ebrill 2021, ac atgoffodd aelodau'r grŵp i gyfeirio at y rheoliadau i gael rhagor o fanylion:

- Hysbysiad adeiladu: hysbysu CNC 14 diwrnod cyn dechrau adeiladu unrhyw system storio newydd neu well ar gyfer slyri neu silwair (mae'r newid hwn yn berthnasol o 28 Ebrill ymlaen).
- Archwilio caeau: rhaid archwilio'r cae er mwyn ystyried y risg y bydd nitrogen yn mynd i ddŵr arwyneb cyn defnyddio gwartaith nitrogen (pob math). Ni chaniateir ei daenu ar dir os bydd risg sylweddol y bydd nitrogen yn cyrraedd dŵr wyneb, gan ystyried ffactorau fel y tywydd, yr amodau tir (e.e. tir wedi rhewi) a goledf y tir.
- Parthau clustogi gorfodol: caiff y rhain eu sefydlu (yn unol â'r gofynion trawsgydymffurfio sydd eisoes yn bodoli).
- Ymgorffori tail organig: ar wyneb pridd moel neu sofl (ac eithrio pridd sydd wedi'i hau) – rhaid gwneud hynny cyn pen 24 awr.
- Cyfnodau gwaharddedig: ar gyfer taenu gwartaith nitrogen a weithgynhyrchwyd.
- Gwneud a storio silwair: gofynion (yn unol â SSOTA).
- Parthau Perygl Nitradau (NVZ) a ddynodwyd yn flaenorol: mae'r holl reolau yn berthnasol.

15. Aeth Spencer ymlaen i roi amlinelliad cryno o'r gofynion o 1 Ionawr 2023:

- Mapiau Risg: llunio map risg o'r daliad gan nodi'r manau lle na ddylid taenu, e.e. dyfroedd wyneb

- Rheoli taeniad gwartaith nitrogen: rhaid bod gan offer taenu slyri daflwybr ymledu sydd o dan 4 metr o'r ddaear, oni chaiff ei ddefnyddio ar dir sydd â risg dŵr ffo isel a chyfradd taenu isel.
- Storio Tail Organig (ac eithrio slyri): ac eithrio mewn tomenni dros dro mewn caeau – rhaid ei storio mewn llestr/mewn adeilad/ar arwyneb anhydraiddd priodol sydd â chynhwysedd gofynnol ar gyfer y cyfnod storio.
- Tomenni dros dro mewn caeau: mae gofynion lleoliad yn berthnasol a rhaid peidio â'u lleoli mewn unrhyw un lleoliad am fwy na 12 mis nac yn yr un man ag un cynharach a adeiladwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Terfynau nitrogen: mae terfyn o 170kg o Nitrogen yr hectar o bob tail da byw mewn unrhyw flwyddyn galendr ar gyfer y daliad cyfan. Mae terfyn o 250kg o Nitrogen yr hectar yn gymwys i daenu tail organig am unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.
- Mewngludo/allgludo tail: rhaid cofnodi'r canlynol cyn pen yr wythnos: y math o dail, y dyddiad, cyfeiriad y cyflenwr/derbynnydd a chynnwys nitrogen y tail sy'n gadael neu'n cyrraedd y daliad.
- Cynlluniau Rheoli Maethynnau: rhaid pennu'r maint optimwm o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd, gan gynnwys glaswelltir, gan ystyried y cyflenwad nitrogen yn y pridd (CNP) a chynhyrchu cynllun ysgrifenedig ar gyfer taenu gwartaith nitrogen ar gyfer pob blwyddyn galendr cyn taenu.
- Gofynion cadw cofnodion: rhaid cadw'r cofnodion angenrheidiol am 5 mlynedd a'u cyflwyno i gael eu harchwilio ar gais. Mae eithriadau yn berthnasol os yw 80% o arwynebedd y daliad yn laswellt, mae'r tail organig yn llai na 100kg/ha ac mae'r nitrogen mewn gwartaith a weithgynhyrchwyd yn llai na 90kg/ha ac na ddeuir â thail organig i'r daliad.

16. Soniodd Spencer yn fyr wrth y grŵp am y cam gweithredu terfynol sy'n cynnwys gofynion o 1 Awst 2024:

- Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwartaith nitrogen: yn cynnwys slyri a thail arall gyda nitrogen ar gael yn rhwydd.
- Lle storio: rhaid bod digon o le i fodloni'r gofynion ar gyfer y tail a gynhyrchir yn ystod y cyfnod storio.
- Y cyfnod storio: rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth (5 mis) ar gyfer pob tail organig neu rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill (6 mis) ar gyfer moch a dofednod.
- System storio slyri SSOTA: bydd y gofynion yn parhau tan 1 Awst 2024.

17. Trafododd Spencer y cyfle am 'Ymreolaeth Haeddiannol' ac mae'r canlynol yn ddisgrifiad byr o'r dull gweithredu hwn:

- Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer dull ymreolaeth haeddiannol (Rheoliad 45 – Mesurau amgen)

- Os ceir mesurau amgen i sicrhau canlyniadau'r rheoliad cyn pen 18 mis, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth iddynt.
- Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, rhaid iddynt gyhoeddi datganiad cyn pen dwy flynedd i ddyfodiad i rym y rheoliadau, gan esbonio pa gamau a gymerir.

- Byddai angen dangos modd o leihau neu atal llygredd o ffynonellau amaethyddol.

18. Rhoddodd Spencer grynodedb o'r canllawiau a'r cyfathrebu hyd yn hyn:

- Datganiad ysgrifenedig
- Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau ynghylch cyflwyno'r rheoliadau, nifer helaeth o gyfweiliadau â'r Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn y cyfryngau
- Cyhoeddwyd crynodeb o'r rheoliadau ar wefan Llywodraeth Cymru

19. Cyfeiriodd Spencer at rai o'r canllawiau a'r cyfathrebu a gynllunnir, gan gynnwys:

- Cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru
 - Llythyrau newyddion Gwlad, y cyfryngau cymdeithasol ac ati.
 - Canllawiau llawn
 - Cwestiynau Cyffredin (dogfen fyw, a gaiff ei newid gydag amser)
 - Datblygir dogfennau ategol ychwanegol, gan gynnwys llyfr gwaith digidol
- Cymorth gan Lywodraeth Cymru
 - Cyswllt Ffermio: datblygir fideos hysbysrwydd, modiwlau e-ddysgu newydd, bwletinau technegol, digwyddiadau ymgysylltu arferol a rhithwir (yn dibynnu ar COVID)
 - Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm: cyfarfodydd briffio a chymorth

20. Trafododd Spencer amserlen arfaethedig Cyswllt Ffermio â'r grŵp, sy'n cynnwys:

- Ymgyrch hysbysrwydd:
 - Fideos trosolwg a'r cyfryngau cymdeithasol – cyflwyniad i'r rheoliadau, gwybodaeth fanwl am bob cam
 - Canolbwyntio ar waith paratoi – beth i'w wneud, erbyn pryd
- Ymgyrch/digwyddiadau datblygu:
 - Digwyddiadau datblygu – gwahanol lefelau, e.e. ymgysylltu, datblygu, arbenigol

- Modiwlaidd – defnyddir dull cyflwyno modiwlaidd, gwybodaeth wahanol sy'n berthnasol i ffermydd gwahanol

- E-ddysgu:

- Adolygu'r deunyddiau e-ddysgu presennol i'w gwneud yn berthnasol i'r rheoliadau
- Cyflwyno modiwlau newydd, e.e. llunio mapiau risg

21. Darparodd Spencer drosolwg o'r cynlluniau a'r cymorth ariannol:

- Grant Cynhyrchu Cynaliadwy:

- Grantiau cyfalaf gwerth rhwng £12,000 a £15,000 i wella seilwaith fferm
- Mae £8.0m yn y gyllideb
- Prif nod y grant hwn yw cynorthwyo busnesau fferm i fodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (y Rheoliadau).
- Bydd y ffenestr Mynegi Diddordeb yn agored rhwng 1 Chwefror a 12 Mawrth

- Y Grant Busnes i Ffermydd (FBG)

- Agorwyd Ffenestr 8 FBG ar 1 Mawrth
- Mae £5.0m yn y gyllideb

- Y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau (FBG-YC)

- Gwellu seilwaith presennol ar ffermydd trwy wahanu dŵr glaw oddi wrth ddŵr brwnt, slyri, tail anifeiliaid neu elifion silwair
- Grant gwerth rhwng £3,000 a £12,000
- Caewyd y ffenestr Mynegi Diddordeb gyntaf ar 18 Rhagfyr, derbyniodd 137 o ffermydd gontractau gwerth cyfanswm o £1.35m
- Bydd ail ffenestr FBG-YC yn agor ar 18 Mai
- Mae £2.0m yn y gyllideb

22. Roedd Spencer yn derbyn nad oedd y grŵp wedi gweld y canllawiau llawn eto ond dywedodd y byddent ar gael yn fuan iawn. Gofynnodd Spencer am gymorth Is-grŵp WLMF i symud ymlaen mewn modd cadarnhaol trwy sicrhau bod y negeseuon cywir yn cyrraedd ffermwyr. Wrth symud ymlaen, bydd WLMF yn:

- Nodi meysydd ychwanegol ar gyfer canllawiau a chymorth
- Helpu i gyfathrebu gofynion y rheoliadau

- Archwilio a chefnogi ymreolaeth haeddiannol

23. Mae Llywodraeth Cymru yn fwy na bodlon gweithio gyda'r Is-grŵp fel corff ac fel unigolion i rannu negeseuon allweddol â ffermwyr. Nawr bod y rheoliadau yn dod i rym, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y dull Ymreolaeth Haeddiannol yn gynnig a gaiff ei ystyried. Anogir pobl i feddwl am syniadau a'u trafod â Llywodraeth Cymru er mwyn i gymorth a chynghor gael eu darparu.
24. Diolchodd y Cadeirydd i Spencer am y cyflwyniad ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau ofyn cwestiynau.
25. Dywedodd Geraint Llyr Davies, CNC, nad yw'r mecanwaith cyllido a'r cymorth cyllido ar gyfer Cynlluniau Maethynnau Pridd ac ati yn ddigon clir ar hyn o bryd. Atebodd Spencer gan ddweud y bydd y manylion hyn yn glir ac yn cael sylw amlwg yn ymgyrch Cyswllt Ffermio i rannu gwybodaeth â ffermwyr am yr hyn sydd ar gael, a phryd a sut y bydd ar gael. Trosolwg yn unig yw sesiwn heddiw ond bydd Cyswllt Ffermio yn darparu'r elfen gyhoedduswydd er mwyn cyflwyno'r negeseuon allweddol.
26. Cydnabu Sarah Hetherington, CNC, ei bod yn braf gweld dull modiwlaid yng nghyswllt gwahanol rannau o'r rheoliadau oherwydd bydd effaith y rheoliadau yn dibynnu ar y math o fusnes ffermio sydd gan bobl. Fodd bynnag, efallai y bydd hi'n anodd i ffermwyr benderfynu pa elfennau sy'n berthnasol i'w busnes nhw. Gofynnodd Sarah a fyddai cymorth ar gael yn rhan o'r broses gyflwyno, i helpu i gyfeirio ffermwyr at y modiwlau cywir y bydd angen iddynt eu cyflawni. Roedd Spencer yn derbyn sylw Sarah a dywedodd ei fod yn croesawu awgrymiadau fel yr un hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn cynghor Cyswllt Ffermio sydd â'r profiad o ledaenu negeseuon, a dywedodd y byddai'n codi'r awgrym hwn gyda nhw.

PG 01 Mawrth: Bod Sarah Hetherington, CNC yn rhoi awgrym ysgrifenedig i Spencer Conlon, LIC, ynghylch cynorthwyo a chefnogi ffermwyr i benderfynu ar y modiwlau cywir i'w cymryd.

27. Soniodd Dylan Morgan, NFU Cymru, fod yr Undeb yn cael ei fodd gan ymholiadau ynghylch manylion y cynllun gan aelodau, ymgynghorwyr ac eraill. Mae angen gweithredu ar unwaith i sefydlu lle y gellir cyfeirio pobl ato er mwyn cael atebion i ymholiadau ynghylch manylion ac agweddau technegol y rheoliadau. Mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn gynted â phosibl ar ffurf canllawiau manwl, cwestiynau ac atebion ac adnoddau penodol er mwyn i bobl allu cysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru i ofyn cwestiynau.

Nododd Dylan fod angen i Lywodraeth Cymru gofio bod y rheoliadau'n mynd i effeithio ar bob ffermwr yng Nghymru a bod angen iddi sicrhau bod pob ffermwr yng Nghymru yn cael yr wybodaeth honno. Nododd Dylan mai canran fach yn unig o ffermwyr sy'n cael llythyrau newyddion Gwlad trwy e-bost ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ati, felly mae angen i becyn cyfathrebu arfaethedig Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cyrraedd pob ffermwr. Yn yr un modd, mae yna ffermwyr a fydd yn methu defnyddio'r modiwlau e-ddysgu. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pecyn o fesurau ar gael sy'n addas i bawb yng Nghymru. Gofynnodd Dylan i Spencer gofio sut y mae hi ar hyn o bryd o ran cynlluniau fel RPW ar-lein, lle mae'r Undebau'n cynorthwyo miloedd o'u haelodau â Ffurflenni'r Cais Sengl, er enghraifft. Mae lefel

manylder a chymhlethdod y rheolau hyn yn golygu na fydd modd i'r Undebau gynnig y lefel honno o gymorth i ffermwyr, felly mae angen llunio system sy'n cwmpasu pawb.

Roedd Dylan hefyd yn meddwl tybed faint o gymorth y byddai Cyswllt Ffermio yn gallu'i ddarparu wrth fynd o sefyllfa lle mae 2.3% o Gymru mewn Parthau Perygl Nitradau i lefel sydd bum deg gwaith yn fwy na hynny, i bob pwrpas, a gofynnodd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o gymorth ar gael i ffermwyr.

I gloi, dywedodd Dylan fod angen, yn y pen draw, i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth ar gael mor fuan â phosibl. Bydd rhai o'r cynigion hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021, ond bydd pobl eisoes yn prynu gwrteithiau a weithgynhyrchwyd ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Ar ben hynny, mae'r cynigion a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023 yn golygu cyfyngu ar stoc buchod godro, ond mae'r buchod hyn yn gyflo yn awr; yn seiliedig ar gyflwyno anifeiliaid newydd i'r fuches yn 2023. Bydd angen i ffermwyr wneud penderfyniadau yn awr yn hytrach nag aros tan 1 Ionawr 2023 neu 1 Awst 2024. Cawsai NFU Cymru ei siomi hyd yn hyn gan gyn lleied o wybodaeth sydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd NFU Cymru wedi llunio dogfen friffio chwe thudalen ynghylch y rheoliadau a'i dosbarthu i'w aelodau cyn pen dau ddiwrnod ac mae crynodeb o'r rheoliadau yng nghylchgrawn Farming Wales hefyd wedi cael ei anfon at yr aelodau. Nid oes dim manylion ar wefan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac eithrio gwybodaeth brin iawn am y dyddiadau. Dywedodd Dylan fod rhannu'r wybodaeth fanwl hon â ffermwyr cyn gynted â phosibl, a darparu lle y gallent droi ato i ofyn cwestiynau a chael cyngor, yn bwysig dros ben.

Ymatebodd Spencer a chytunodd fod dosbarthu'r canllawiau cyn gynted â phosibl yn bwysig ond dywedodd fod y gwaith hwn yn cael ei ddal yn ôl oherwydd y gwaith adweithiol mewnol y mae Llywodraeth Cymru yn gorfod delio ag ef ac ymateb iddo yn unol â therfynau amser cyfreithiol cyfyngedig, sy'n tynnu adnoddau oddi wrth y dasg o gwblhau'r canllawiau. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn fod angen cyhoeddi'r canllawiau ar fyrder.

Nododd Spencer fod lledaenu'r negeseuon allweddol yn bwysig iawn a dywedodd y byddai'n croesawu ac yn ystyried unrhyw awgrymiadau gan y grŵp ynghylch y ffordd orau o wneud hynny. Bydd y gwasanaeth Cysylltwyr Fferm hefyd yn parhau ar ei ffurf bresennol. Mae Llywodraeth Cymru yn ddigon parod i gynorthwyo'r Undebau a rhoi gwybodaeth a negeseuon allweddol iddynt i'w cyfathrebu a'u rhannu â'u haelodau.

28. Roedd y Cadeirydd yn ategu pwysigrwydd rhoi negeseuon cyson i ffermwyr.

29. Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, fod Dŵr Cymru, yn y gorffennol, wedi creu 'pecynnau rhanddeiliaid' a oedd yn cynnwys negeseuon allweddol ac yn sgil cymhlethdod y rheoliadau hyn, gofynnodd tybed a fyddai modd defnyddio'r dull hwn i sicrhau bod yr un negeseuon cyson yn cael eu rhannu â ffermwyr.

Awgrymodd Sarah y bydd pobl yn dibynnu ar ymgynghorwyr a thrydydd partiön efallai i gyflwyno rhai o'r deilliannau, megis cadw cofnodion, felly gofynnodd a fyddid yn cynnal cyfarfodydd briffio agored gyda'r bobl hyn i drafod yn fanylach a'u helpu i ddeall yr wybodaeth.

O ran y mapiau risg a chadw cofnodion, gofynnodd Sarah a fyddai manylion y deilliannau hyn yn cynnwys enghreifftiau sy'n dangos map risg da o'i gymharu ag un

gwael ac enghreifftiau o gofnodion da o'u cymharu â rhai gwael. Heb yr enghreifftiau hyn, byddai'n anodd i ffermwyr asesu a ddylent fod yn talu'n ychwanegol am ymgynghorydd i wneud y gwaith drostynt a pha lefel o gymhwyster sy'n angenrheidiol i'w cynhyrchu.

Roedd Spencer yn gwerthfawrogi awgrymiadau Sarah a dywedodd y byddai angen iddo eu trafod â thîm Cyswllt Ffermio, yn enwedig y syniad am 'becyn rhanddeiliaid'. Cadarnhaodd Spencer na fyddai'r gofynion o ran mapiau risg yn arbennig o feichus ac y byddai'r canllawiau yn pwysleisio hynny. Awgrymodd Spencer fod ffermydd yn amrywio'n sylweddol ac y gallai enghreifftiau o ddogfennau 'da' neu ddogfennau 'gwael' fod yn gamarweiniol. Gallai ffermwyr gredu bod yn rhaid dilyn y ffordd a ddangoswyd ond hwyrach na fyddai'r dull hwnnw yn berthnasol nac yn gweddu i'r fferm benodol honno. Mae'r canllawiau yn rhoi esboniad clir o'r hyn sy'n ofynnol a'r effaith bosibl ar wahanol fathau o ffermydd. Dywedodd Spencer y gallai'r rhan fwyaf o ffermwyr, os nad y cwbl, wneud yr elfen hon eu hunain ac na fyddai angen ymgynghorydd i wneud hynny drostynt. Mae ffermwyr yn adnabod eu ffermydd eu hunain a bydd yr wybodaeth hon eisoes ar gael gan lawer ohonynt.

PG 02 Mawrth: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn trafod y Pecyn Rhanddeiliaid â Chyswllt Ffermio ac yn gweithio gydag aelodau o'r grŵp i lunio'r negeseuon allweddol.

30. Gofynnodd Bob Vaughan, CNC, tybed a oedd gan y grŵp hwn ran i'w chwarae o ran helpu i holi ac ateb peth o'r wybodaeth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei dosbarthu, neu brofi peth o'r wybodaeth er mwyn ei helpu i gyrraedd y nod. Mae negeseuon cyson yn allweddol a gwelwyd eisoes, oddi mewn i CNC, fod gan bobl farn wahanol ar y rheoliadau hyn yn dibynnu ym mha ran o'r sefydliad y maent yn gweithio. Mae CNC yn ymdrechu i lunio negeseuon cyson yn fewnol cyn rhannu negeseuon cywir a chyson yn allanol, gan ddefnyddio dull un llais.

Gofynnodd Bob a oedd y cynnig ynghylch ymreolaeth haeddiannol yn un penagored ynteu a yw'n cyd-fynd â'r adolygiad 18 mis oherwydd mae'n debygol y byddai'r grŵp hwn am gael golwg ar y mater gan ei fod yn cydweddu â thrafodaethau'r Is-grŵp.

Dywedodd Spencer fod ymreolaeth haeddiannol yn rhan o gwmpas y rheoliadau a'i bod yn ffenestr 18 mis o ddyddiad cyflwyno'r rheoliadau, sef 18 mis o 1 Ebrill a'i bod hefyd yn cwmpasu ystyriaeth i'r cynllun hwnnw gan y gweinidog. Bydd adolygiad ffurfiol o'r rheoliadau ymhen pedair blynedd hefyd.

Yng nghyswllt y cynnig i'r grŵp brofi peth o'r wybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru, dywedodd Spencer y byddai hynny'n ddelfrydol, ond nid oedd yn ymarferol. Esboniodd fod pwysau ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r manylion a byddai'r cynnig yn debygol o ddal y gwaith yn ôl. Dywedodd Spencer ei fod yn fodlon i'r grŵp adolygu'r elfen 'Cwestiynau Cyffredin, a fydd yn ddogfen fyw y bydd modd ei diwygio a'i diweddarau. Dywedodd Spencer y byddai modd ymgorffori rhyw fath o adolygiad yn y dyfodol os byddwn am wella neu roi gwedd gliriach ar y ddogfen, ond rhannu'r canllawiau yw'r peth pwysig ar hyn o bryd.

PG 03 Mawrth: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin i'r aelodau er mwyn iddynt gynnig sylwadau a chwestiynau ac atebion ychwanegol

31. Dywedodd Nichola Salter, CNC, ei bod wedi cael rhai trafodaethau byr gyda FAWL ar ôl iddynt gysylltu â hi gan feddwl creu ffeithlen a thempledi. Efallai bod angen edrych ar yr hyn sydd eisoes ar gael neu'r hyn y mae eisoes ei angen ac adeiladu ar hynny. Er enghraifft, mae FAWL yn gofyn bod gan ffermwyr fap risg, ond nid yw'r map hwnnw'n bodloni gofynion y rheoliadau newydd yn llwyr. Mae angen i ni helpu ffermwyr i nodi'r hyn y maent eisoes yn ei wneud ar gyfer eu cynlluniau sicrhau ansawdd a pha newidiadau bach y gallai fod angen eu gwneud i'r gwaith hwnnw. Cafwyd trafodaeth hefyd yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Cyflawni Cyswllt Ffermio ynghylch sicrhau bod pawb yn gweithio mewn cytgor.

32. Dywedodd Geraint Llyr Davies, CNC, fod rhai materion yn peri pryder iddo, fel ffermwr, wrth symud ymlaen. Dywedodd Geraint fod Llywodraeth Cymru wedi anfon neges e-bost ato yn dweud nad oedd ei gais am y Grant Gorchuddio Iardiau yn llwyddiannus. Esboniodd Geraint ei fod wedi tybio bod y gwaith cyfrifo yn gywir ond yr oedd ymhell ohoni yn ôl cyfrifiadau Llywodraeth Cymru. Bu Geraint yn trafod cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael i helpu gyda'r broses ymgeisio a gofynnodd i Spencer a fyddid yn sicrhau bod y broses yn haws wrth symud ymlaen. Cyfaddefodd Spencer nad oedd yn gwybod manylion y sefyllfa hon ond yr oedd yn barod i wrando ar unrhyw awgrymiadau a chael sgwrs all-lein gyda Geraint. Esboniodd Geraint fod grant gwerth £60,000 ar gael i ddalgylchoedd blaenoriaeth yn Lloegr i'w helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau a bod adnoddau ar gael i helpu gyda hynny, gan gynnwys Map Magic Defra sy'n adnodd hynod o fanwl a datblygedig sy'n dangos y grantiau sy'n gysylltiedig â phob ardal flaenoriaeth. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau hyn a rhoi lefel uwch o wybodaeth i ffermwyr er mwyn gwneud pethau'n haws iddynt wrth fynd ymlaen. Soniodd Geraint fod £950 miliwn neu oddeutu hynny yn y Cynllun Datblygu Gwledig a oedd heb ei gyflwyno ac y methwyd â'i neilltuo i helpu i sicrhau bod amaethyddiaeth yng Nghymru yn cydymffurfio â'r gofynion cyn cyflwyno unrhyw fath o drefn reoleiddio.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfle efallai i wella'r mapiau presennol a ninnau bellach yn gwybod beth y gallai fod ei angen arnom, a dysgu gan y rhai sy'n gweithredu'n llwyddiannus.

Dywedodd Spencer y byddai'n codi'r mater hwn â'i gyd-weithiwr, Richard, sy'n delio â'r maes hwn. Mae'n beth da bob amser os gallwn ddysgu gan y rhai sy'n gweithio'n llwyddiannus a rhoi rhywbeth ar waith. Dywedodd Spencer fod croeso i Geraint anfon neges e-bost ato yn nodi rhai manylion cryno y gallai ofyn i'w gyd-weithiwr roi sylw iddynt.

33. Soniodd Sarah Hetherington, CNC, fod rhannu negeseuon cyson yn allweddol ac awgrymodd y dylid argymhell alinio'r negeseuon hyn fel bod un darn o waith papur ar gyfer beth bynnag sydd ei angen, yn hytrach nag ychwanegu ychydig mwy o fanylion hwnt ac yma er mwyn bodloni pa bynnag gynllun sydd dan sylw (e.e. mapiau risg ar gyfer FAWL, y Tractor Coch, y rheoliadau dŵr, y cymhorthdal sengl i ffermydd (SFS), ac ati).

Soniodd Sarah hefyd fod lle bob amser i ddysgu gwersi yn sgil cynlluniau a bod gwersi y gellir eu dysgu yn sgil dull gweithredu'r Grant Gorchuddio Iardiau. Ar ôl y ffenestr hon, efallai y byddai'n werth cynnal adolygiad i weld sut y gellid ei wella a sut y gallai ddod yn fwy effeithlon a hygyrch.

34. Gofynnodd Chris Mills, WEL, beth y mae CNC yn ei wneud, fel awdurdod rheoleiddio, i baratoi ar gyfer gweithredu'r rheoliadau hyn.

Esboniodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru y tu ôl i'r llenni i gael golwg ar y rheoliadau hyn. CNC fydd yn gorfodi ac yn rheoleiddio'r maes hwn ac mae'n amlwg bod angen pennu pa adnoddau y bydd eu hangen arno. Bydd y rheoliadau'n effeithio'n sylweddol hefyd ar y ffordd y bydd CNC yn gorfodi ei holl weithgareddau ar hyn o bryd. Mae'r rheoliadau'n cwmpasu nifer da o'r meysydd hyn ac mae angen i ni edrych ar sut y gallwn sicrhau ein bod yn cyrraedd safleoedd cyn bod llygredd yn digwydd ac effaith y gwaith hwnnw. Dywedodd Bob fod CNC wedi ysgrifennu papur ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau a'i gyflwyno i'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio (BBRh). Cafodd yr adroddiad, sy'n disgrifio nifer o ddewisiadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth hwn ledled Cymru, gan amrywio o sefyllfa ddiglyfnwedd i weithredu'r rheoliadau yn y ffordd ehangaf posibl, ei gymeradwyo gan y BBRh. Anfonwyd yr adroddiad hwnnw at Lywodraeth Cymru er mwyn iddi adolygu'r dewisiadau a nodwyd gennym. Dywedodd Bob ei fod yn bwriadu cyfarfod â thîm Andrew a Spencer yr wythnos nesaf i drafod y dewisiadau hynny a rhoi gwybod iddynt am y dewis yr oedd BBRh yn ei ffafrio. Mae gwahanol adnoddau yn gysylltiedig â phob dewis gwahanol a disgrifir yr amrediad o adnoddau a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwahanol safonau gwasanaeth y bu CNC yn edrych arnynt. Dywedodd Bob ei fod yn gobeithio bod CNC ar fin trafod telerau â Llywodraeth Cymru i weld pa gyllid sydd ar gael er mwyn darparu adnoddau hyd at y lefel yr ydym am weithredu arni.

Esboniodd Bob fod CNC wedi trefnu nifer o weithdai mewnol ar gyfer staff gweithredol er mwyn iddynt ddeall yr hyn yr ydym yn ei wneud o ran dehongli'r rheoliadau a hefyd sut y byddwn yn eu gweithredu. Awgrymodd Bob y byddai'n hoffi rhoi cyflwyniad i Is-grŵp WLMF, unwaith y bydd y gweithdai hyn wedi cael eu cyflwyno i gyd-weithwyr, i helpu i esbonio rôl CNC er mwyn i'r grŵp ddeall yn iawn beth y gellir ei ddisgwyl gan CNC o ran gweithredu'r rheoliadau hyn. Trafododd Sarah Hetherington, CNC, yr hyn y bu CNC yn ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith hwn yng nghyswllt lliniaru'r polisi risg llygredd ar yr ochr gynllunio. Cyfeiriodd Sarah at bryderon sydd wedi codi ynghylch sut y mae OGN 20 yn rhyngweithio â'r ochr ddŵr a dywedodd y cyhoeddir gwaith yr un pryd ag OGN 20. Dywedodd Sarah fod CNC yn gweithio ar y cyd ag Arolygiaeth Wledig Cymru ac y bydd yn llunio'r ymateb a'r hyn a fydd yn digwydd wrth symud ymlaen, ond bydd y math o ryngweithio rhwng CNC ac Arolygiaeth Wledig Cymru yn dibynnu ar yr adnoddau a neilltuir ar gyfer CNC.

35. Dywedodd Chris Mills, WEL, fod polisi CNC ynghylch mynychu digwyddiadau yn faes sy'n peri pryder oherwydd bydd ymwybyddiaeth eithaf helaeth ac mae'n bosibl iawn y bydd pobl yn rhoi gwybod i CNC fod slyri'n cael ei daenu ar yr adeg anghywir. Mae'n ymddangos na fydd y polisi ynghylch mynychu digwyddiadau yn cydweddu o bosibl â rhai o'r digwyddiadau hynny. Gofynnodd Chris a fydd CNC yn edrych ar y mater hwnnw o ganlyniad. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod y mater hwn yn rhan allweddol o'r gwaith sydd eisoes yn derbyn sylw gan CNC. Cyn gynted ag y gwelodd CNC y rheoliadau drafft y llynedd, sylweddolwyd ar unwaith ei fod yn fater amlwg gan ei fod yn cwmpasu'r ffordd y mynychir digwyddiadau ar hyn o bryd a chawsai ei gynnwys, felly, yn yr adnoddau gofynnol. Dywedodd Bob fod trafodaethau wedi'u cynnal hefyd â'r ochr reoliadol o'n busnes er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall bod hon yn ddarpariaeth benodol ar gyfer amaethyddiaeth a'r canlyniadau posibl ar gyfer gweithgareddau eraill a orfodir gennym. Mae gennym ddull gweithredu cyson, ond nid yw'n cyd-fynd yn llwyr â'r sefyllfa bresennol, sy'n golygu y bydd angen adolygu ein ffordd gyfan o orfodi

digwyddiadau ar draws CNC. Bydd goblygiadau hynny yn ymestyn y tu hwnt i'n sefyllfa bresennol ac mae'n bosibl y bydd gennym ddau ddull gweithredu gwahanol yn y pen draw; un ar gyfer amaethyddiaeth ac un ar gyfer mathau eraill o ddigwyddiadau. I gloi, dywedodd Bob nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd ond mae CNC yn rhoi sylw manwl i'r mater.

36. Cyfeiriodd Dennis Matheson, TFA, at gyflwyniad ynghylch digwyddiadau llygru a ddarparwyd yn un o gyfarfodydd WLMF yn 2016. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu'n fawr iawn y gallai'r Undeb Ewropeaidd ddweud nad oedd digon yn cael ei wneud ynghylch digwyddiadau llygredd ac y byddai dull Parth Perygl Nitrad i Gymru gyfan yn cael ei sefydlu, ond nad oedd Llywodraeth Cymru am weld hynny'n digwydd. Dywedodd Dennis iddo sylwi bod y Gweinidog, yn y datganiad y mis diwethaf i gyhoeddi cyflwyniad y rheoliadau hyn, wedi dweud ei bod hi'n pryderu y gallai allforion cig oen o Gymru i'r Undeb Ewropeaidd gael eu peryglu oni fyddai'n sefydlu Parth Perygl Nitradau i Gymru gyfan. Aeth Dennis ymlaen i ddweud bod yr Undeb Ewropeaidd bellach wedi beirniadu'r Deyrnas Unedig gan ddweud nad yw'n cydymffurfio â rheolau Awyr Glân yr Undeb Ewropeaidd. Gofynnodd Dennis tybed a oedd yr achos yn erbyn llygredd yng Nghymru, a ddygir gan Afonydd Cymru ac sy'n aros am wrandawriad yn y Llys Ewropeaidd, ar y gorwel ac y gallai fod yn anghyfleus i Lywodraeth Cymru petai'n codi cyn yr etholiad.

Dywedodd Dennis nad oedd unrhyw sôn yn y rheoliadau newydd ynghylch sut y bydd ffermwyr sy'n denantiaid yn cydymffurfio. Dywedodd Dennis ei fod, ers dechrau ymwneud â'r Is-grŵp, wedi dweud yn gyson ei bod hi'n anodd iawn i ffermwyr sy'n denantiaid gydymffurfio â llawer o reoliadau. Yn benodol, mae tenantiaethau tymor byr yn gyfyngedig iawn gyda chymalau cyfyngol yn y cytundebau tenantiaeth o ran yr hyn y caiff a'r hyn na chaiff tenant ei wneud, nid yn unig o ran storio silwair ond ar gyfer pob math o bethau eraill. Cyfeiriodd Dennis at rai ystadegau diweddar ynghylch tenantiaethau busnes fferm (sef hanner y tenantiaethau yng Nghymru) sy'n awgrymu bod hyd tenantiaeth bellach wedi lleihau o 3.5 blynedd i 3.2 blynedd a bod 89% o denantiaethau busnes fferm yn para llai na 5 mlynedd. Mae hynny'n golygu na all yr un o'r ffermwyr hyn ymuno â chynlluniau amgylcheddol ar hyn o bryd ac mae'n annhebygol iawn y byddent yn gymwys ar gyfer unrhyw grantiau oherwydd bod rhaid cael cynllun busnes 5 mlynedd. Gofynnodd Dennis pa landlord, yn gyffredinol, sy'n mynd i wario miloedd o bunnoedd ar system storio slyri newydd os bydd y denantiaeth yn dod i ben ymhen 1-3 blynedd a pha denant posibl sy'n mynd i fuddsoddi mewn seilwaith o'r fath, hyd yn oed pe caniateid iddo wneud hynny. Dywedodd Dennis fod y mater hwn wedi cael ei godi sawl gwaith a bod y Gweinidog wedi ymweld â'i fferm ef a llawer fferm arall sy'n wynebu'r broblem hon. Cyfarfu TFA â'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru sawl gwaith i drafod y mater felly mae Llywodraeth Cymru yn gwybod am y problemau hyn ond nid oes dim wedi cael ei wneud. Erbyn Awst 2024, bydd yr holl reoliadau newydd hyn mewn grym ar gyfer y cynllun ac mae TFA yn credu y dylid addasu'r Ddeddf Tenantiaeth ac awgrymodd pa elfennau y dylid eu newid, gan ddilyn cyngor Grŵp y Diwydiant ynghylch Diwygio Tenantiaethau. Dywedodd Dennis nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gyflwyno rheoliadau tenantiaeth newydd neu ddiwygiedig nes bod y Bil Amaethyddol yn dod yn ddeddf yn 2024 (os caiff ei gyflwyno) a bydd yn rhaid i unrhyw reoliadau newydd fynd trwy'r broses gyfreithiol – sy'n golygu y bydd hi'n rhy hwyr i denantiaid geisio cael caniatâd ar gyfer systemau storio slyri newydd erbyn Awst 2024. Gofynnodd Dennis beth y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud am

denantiaethau oherwydd os bydd hi'n gwneud dim, mae'n sicr y bydd ar ben ar denantiaethau amaethyddol yng Nghymru.

Cadarnhaodd Spencer fod cyfarfod wedi'i gynnal ychydig o wythnosau yn ôl i drafod y mater hwn a bod y Gweinidog yn ysgrifennu at TFA yn dilyn y cyfarfod. Dywedodd Spencer fod y Gweinidog wedi ymrwymo i gyfarfod â TFA eto i fynd ymlaen â'r materion hyn. Mae ymgynghoriad ar waith ar hyn o bryd ynghylch y Papur Gwyn ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i TFA gyflwyno sylwadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda TFA i sicrhau bod y rheoliadau hyn yn gweithio i bawb yng Nghymru. Dywedodd Spencer fod llawer o fanylion yn yr hyn a ddywedwyd ac y byddai'n hapus i'w dadansoddi pan fydd y grŵp yn cyfarfod yn nes ymlaen y mis hwn. Bydd adran 'Cwestiynau Cyffredin' ynghylch tir tenantiaid i gefnogi'r canllawiau ac mae Llywodraeth Cymru yn barod i ddatblygu, addasu a chynyddu honno wrth i ni symud ymlaen, gan weithio gyda TFA ac eraill.

Ymatebodd Dennis gan ddweud bod y mater hwn wedi cael ei amlygu ers pedair blynedd a bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn bod problem. Mae'r Is-grŵp hwn wedi bod yn gefnogol iawn a nodwyd y mater hefyd yn adroddiad interim yr Is-grŵp. Mae TFA wedi cynnig nifer o awgrymiadau ond mae'n rhy hwyr bellach, gan fod y rheoliadau'n cael eu cyflwyno ymhen y mis ac ni fydd rhai tenantiaid yn gallu cydymffurfio â nhw. Yr unig beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yw eithrio ffermwyr sy'n denantiaid nes bod y broblem hon wedi'i datrys. Dywedodd Spencer fod yr elfennau sy'n dod i rym ymhen y mis yn ymwneud â ble a phryd y mae ffermwyr yn taenu, felly ni fyddant yn peri mwy o broblem i ffermwyr sy'n denantiaid nac i neb arall. Rhoddodd Dennis enghraifft, sef nad oes caniatâd i denantiaid allgludo slyri o fferm denant i unrhyw fferm arall, megis fferm â'r drws nesaf. Dywedodd Spencer na fyddai'r darpariaethau hyn yn newid ar 1 Ebrill a bydd y sefyllfa o dan SSOTA yn parhau.

Dywedodd Dennis y byddai effaith sylweddol ar ffermydd Cynghorau Sir hefyd, er enghraifft mae gan Gyngor Sir Powys lawer o ffermydd, sef oddeutu 150 ohonynt. Cyfrifwyd y byddai'r gwaith o gywiro systemau storio slyri yn costio £45 miliwn i'r Cyngor Sir, cyn grantiau. Mae'r Cyngor wedi dweud na fydd yn gwneud y gwaith hwn ac y byddai'n gwerthu'r ystâd gyfan petai pethau'n mynd i'r pen. Mae hwn yn fater brys. Dywedodd Spencer nad oedd wedi gweld y ffigurau hynny ac nad oedd yn gwybod a gyfrifiwyd y ffigurau fesul fferm neu a ystyriwyd pob opsiwn, gan gynnwys gwaith atal yn hytrach na mynd yn syth am systemau storio slyri ychwanegol.

Eglurodd Dennis nad oedd TFA am weld yr un digwyddiad llygredd amaethyddol a'i fod am atal digwyddiadau o'r fath, ond roedd y math hwn o ffermio yn rhwystr i denantiaid.

Roedd Geraint Llyr Davies, CNC, yn cytuno â Dennis ac yn cefnogi'i safbwynt yn llwyr. Dywedodd Geraint fod y Papur Gwyn yn wan o ran sefyllfaoedd tenantiaeth yng Nghymru a bod TFA wedi bod yn codi llais i ofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru ers tro byd felly pam nad oedd dim yn y Papur Gwyn i ddatrys hynny. I gloi, dywedodd Geraint nad oes digon yn cael ei wneud dros y sector tenantiaeth yng Nghymru.

37. Dywedodd y Cadeirydd y bydd y geiriau 'cymesur ac wedi'i dargedu' yn bwysig dros ben yn y negeseuon er mwyn helpu ffermwyr i ddeall a oes problem fawr ganddynt neu beidio. Gofynnodd sut y byddwn ni'n helpu i sicrhau bod y negeseuon yn gymesur ac wedi'u targedu wrth i ni symud ymlaen â'r dull i Gymru gyfan. Dywedodd Spencer eu

bod yn rhan annatod o'r neges a gaiff ei chyfleu trwy'r 'hyn y mae angen ei wybod' a'r 'hyn y mae angen ei ystyried yn awr'. Mae llawer o ffermwyr yn wahanol ond mae 'cymesur ac wedi'i dargedu' yn seiliedig ar gynhyrchiant slyri yn hytrach nag ardaloedd daearyddol. Ar lefel sylfaenol iawn, po fwyaf o slyri a gynhyrchir, po fwyaf fydd effaith debygol y rheoliadau oherwydd os yw'r cyfaint yn fwy y mae'r risg y bydd rhywbeth yn mynd o'i le hefyd yn fwy. Mae'n bwysig cyfathrebu'n glir â ffermwyr ynghylch beth yw'r rheolau, sut y mae'r rheolau'n berthnasol i drefn bresennol eu fferm a pha opsiynau sydd ganddynt.

38. Dywedodd Dylan Morgan, NFU Cymru, na ddylid bychanu'r elfen cadw cofnodion yn y rheoliadau. Bydd pob ffermwr yng Nghymru yn gorfod delio â'r gofynion cadw cofnodion i ryw raddau, i brofi nad ydynt yn cyrraedd trothwyon penodol yn un peth. Gan fynd yn ôl at y sylwadau a wnaed ynghylch y Papur Gwyn ac arwyddocâd cynnwys hwnnw yn y rheoliadau fel rhan o'r Safon Ofynnol Genedlaethol, fe fydd yn rhan o'r mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) a'r drefn arolygu yn y dyfodol. Felly, mae torri'r gofynion cadw cofnodion yn mynd i gael effaith o ran sancsiynau sifil y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a hefyd o ran mynediad posibl i'r CFfC neu aelodaeth barhaus ohono, nid yn unig yng nghyswllt yr elfennau o'r CFfC sy'n ymwneud â thaliadau ond hefyd o ran cael mynediad at yr holl gymorth busnes. Edrychwch ar ardaloedd eraill yn y DU a nifer y cosbau trawsgydymffurfio sy'n ymwneud yn benodol â'r gofynion cadw cofnodion. Yng nghyd-destun y Papur Gwyn ac yng nghyswllt effaith y llinell sylfaen reoleiddio uwch, gallai gael effaith enfawr ar bob ffermwr, nid dim ond y rhai sy'n cynhyrchu slyri. Roedd y Cadeirydd yn cytuno bod hwn yn faes pwysig a chyfeiriodd at drafodaethau a gafodd gyda Llywodraeth Cymru lle edrychid ar ffyrdd o leihau hyd yr eithaf ar yr elfen cadw cofnodion i ffermwyr nad yw hon yn broblem fawr iddynt. Cytunodd Spencer y bydd pob ffermwr yn gorfod cadw rhywfaint o gofnodion, ond dywedodd y byddai'r gwaith hwnnw yn gymesur. Os nad yw ffermwr yn cynhyrchu llawer o slyri, ychydig iawn o gofnodion y bydd angen eu cadw. Dyna yw natur mynediad i gynllun, ac ni fydd y safon sylfaenol yn wahanol i ofynion mynediad eraill i'r cynllun, ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gadw mor syml ac mor rhwydd â phosibl. Wrth i ni symud ymlaen, bydd angen monitro'r sefyllfa ac os bydd problem yn datblygu yna byddwn yn rhoi sylw iddi. Mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda'r grŵp a chydweithio i weithredu'r rheoliadau yn effeithiol.
39. Cyfeiriodd Dennis Matheson, TFA, at y cynllun Adnabod Da Byw a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bryd hynny fod cydymffurfio â'r trefniadau tagio defaid unigol yn amhosibl, ond yr oedd yn rheol gan yr Undeb Ewropeaidd yr oedd yn rhaid ei gorfodi. Dywedodd Llywodraeth Cymru ar y pryd, petai digon o bobl yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos nad oedd modd cyflawni'r gofynion, yna byddai'n ailedrych ar y rheol hon. Mae'r rheoliadau dŵr newydd hyn yr un fath mewn rhai ffyrdd, gan fod Llywodraeth Cymru yn sylweddoli na fydd rhai yn gallu cydymffurfio â nhw ac os byddwn ni'n cyflwyno tystiolaeth iddi yna efallai y bydd modd ailedrych ar y mater. Dywedodd Spencer y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar unrhyw dystiolaeth a gyflwynir ynghylch effaith y rheoliadau.
40. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, y bydd mwy o ofynion ar Gyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm i gyflawni hyn i gyd ledled Cymru, a gofynnodd tybed a fyddai hynny'n golygu y caent ragor o gyllid neu a fyddai'n rhaid iddynt gefnu ar ran o'r portffolio sydd eisoes ganddynt.

Ar fater Ymreolaeth Haeddiannol, cyfeiriodd Bernard at y cynllun amgen gwirfoddol o dan arweiniad NFU Cymru, a dywedodd y byddai'n dda cael gwybod pam nad oedd y cynllun hwn yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru o ran y dull ymreolaeth haeddiannol. Byddai cael adborth yn fodd i ni ddeall ble'r oedd y bylchau yn y cynnig hwnnw.

Dywedodd Spencer nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gwtogi ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm ar hyn o bryd o ganlyniad i'w cymorth â'r rheoliadau hyn.

Dywedodd Spencer hefyd nad oedd y cynllun gwirfoddol a luniwyd wedi cael ei gyflwyno fel cynnig Ymreolaeth Haeddiannol gan nad yw honno ar waith eto. Os bydd aelodau o'r Is-grŵp am gyflwyno cynnig Ymreolaeth Haeddiannol yn seiliedig ar y ddogfen honno, yna byddai Llywodraeth Cymru yn fwy na bodlon ei drafod.

PG 04 Mawrth: Bod pob aelod yn cyflwyno unrhyw gynigion ynghylch Ymreolaeth Haeddiannol i Lywodraeth Cymru

Dywedodd Bernard ei bod yn amlwg nad oedd y cynnig yn ddigon da a bod bylchau ynddo neu fel arall ni fyddid wedi cyflwyno'r rheoliadau hyn yn ei le. Awgrymodd Bernard y byddai'n dda cael cyngor gan Lywodraeth Cymru, wrth symud ymlaen, ynghylch y gwaith y mae angen ei wneud i'r cynnig hwnnw.

41. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Is-grŵp, i'w helpu i ddeall y negeseuon clir a chyson y bydd angen iddynt eu rhannu â'u haelodau.

Cyfeiriodd Creighton Harvey, CFF, at bryder CFF y bydd llawer o'i aelodau yn mynd allan ar 1 Ebrill ac yn chwilio am ffermwyr sy'n torri'r rheoliadau newydd. Mae CFF hefyd yn pryderu am ddigwyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf lle'r oedd yn amlwg bod rheolau wedi cael eu torri a llygredd gwirioneddol wedi'i achosi ond nid oedd CNC wedi dod allan ac mae'r ymchwiliad i'r materion hyn yn parhau. Bydd CFF yn dosbarthu neges i ddweud wrth bobl y bydd y rheoliadau hyn ar waith nid yn unig ar 1 Ebrill ond hyd y gellir ei rag-weld, ac os bydd pawb yn cynhyrfu ar 1 Ebrill, yn mynd allan ac yn rhoi gwybod am bob digwyddiad, ni fydd CNC yn gallu cadarnhau'r digwyddiadau i gyd heb sôn am ddelio â nhw. Bydd CFF yn ceisio rheoli disgwyliadau ac mae'n gofyn i CNC sicrhau bod ganddo weithdrefnau ar waith a chanllawiau ar gyfer y staff. Cafodd y materion hyn eu codi ddwy flynedd yn ôl gyda Syr David Henshaw ac Uwch-reolwyr CNC er mwyn iddynt sicrhau bod y canllawiau sy'n cael eu rhoi i'r staff yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd CFF yn ceisio rheoli disgwyliadau trwy esbonio i bobl fod yn rhaid i CNC sicrhau ei fod mewn sefyllfa i reoleiddio a bod hwnnw'n waith ar gyfer y dyfodol ac nid ar gyfer un diwrnod yn unig.

Ymatebodd Bob Vaughan, CNC gan ddweud bod y trafodaethau hyn yn parhau gyda Llywodraeth Cymru. Pan fydd CNC yn gwybod pa adnoddau fydd ar gael i wneud y gwaith hwn, byddwn yn briffio ein staff mewnol ynghylch ein disgwyliadau a byddwn yn gyson ynglŷn â delio â'r rheoliadau hyn a'u cymhwyso yn ein gwaith. Byddwn yn dod yn ôl at y grŵp hwn i ddangos sut y byddwn yn symud ymlaen gyda'r adnoddau sydd ar gael, er mwyn rhoi syniad o'r hyn y gall pobl ddisgwyl ei gael gan CNC. Os na fydd hynny'n ddigon da, bydd yn rhaid adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn. Ar hyn o bryd,

bydd y gwaith yn dibynnu i raddau helaeth ar yr adnoddau sydd gennym a sut y gallwn roi'r trefniadau hyn ar waith.

Dywedodd Creighton ei fod ef, ar ran CFF, wedi dechrau llunio dogfen yn seiliedig ar brofiadau unigol o roi gwybod i CNC am ddigwyddiadau a'r ymatebion a gafwyd. Mae'n ganllaw i'r ffordd orau o roi gwybod am ddigwyddiadau er mwyn cael ymateb da gan CNC. Roedd bron â chwblhau'r ddogfen ond bydd yn rhaid ei haddasu bellach er mwyn cwmpasu'r rheoliadau newydd. Bydd CFF yn cyhoeddi gwybodaeth a fydd yn adlewyrchu polisi CNC ond hefyd yn nodi ymhle y cafodd pobl anawsterau yn y gorffennol wrth roi gwybod am ddigwyddiadau. Bydd y ddogfen hefyd yn cynnig canllawiau ymarferol fel darparu ffotograff o'r digwyddiad a gofyn am neges e-bost i gadarnhau rhif y digwyddiad fel bod modd anfon gwybodaeth yn uniongyrchol. I gloi, dywedodd Creighton y bydd CFF yn amlwg yn disgwyl ymateb gan CNC. Dywedodd Bob y byddai'n hapus iawn i drafod y mater hwn â chyd-weithwyr er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod mai dyma'r math o wybodaeth y byddant yn ei chael. Wrth symud ymlaen, pan fyddwn yn gwybod sut y mae CNC yn mynd i ymgymryd â'r gwaith yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, byddwn yn cynnal cyfres o weithdai mewnol gyda'n staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth yr ydym yn mynd i'w wneud, eu helpu i gael syniad clir iawn o'r negeseuon y byddant yn eu rhannu a sicrhau eu bod yn gwybod beth y mae angen ei wneud yn y maes. Dywedodd Bob y bydd hefyd yn gweithio gyda Meinir i sicrhau bod CNC yn rhannu'r neges honno â phawb arall, fel bod pawb yn gwybod beth yw ein cynlluniau a sut y byddwn yn eu cyflawni. Byddwn hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau os gwelwch unrhyw ddiffygion neu unrhyw fannau lle gallwn wella'r gwasanaeth hwnnw. Bydd CNC yn trafod â Llywodraeth Cymru ar hyd y daith oherwydd bydd gofyn i ni roi adroddiadau a diweddariadau iddi ynghylch y cynnydd a wneir.

42. Dywedodd Meinir Wigley, CNC, fod sicrhau lle swyddogol y gall ffermwyr droi ato i gael gwybodaeth yn allweddol bwysig ac ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai gwefan Llywodraeth Cymru neu wefan Cyswllt Ffermio fydd y lle hwnnw. Dangos y ffordd i un wefan ganolog fydd yn bwysig, yn hytrach na bod pawb yn ail-greu gwybodaeth yn ein cyfathrebiadau ein hunain. Pan fydd CNC yn gwybod beth fydd y dull rheoleiddio a gorfodi, dyna'r wybodaeth y byddwn ni'n ei rhoi ar ein gwefan oherwydd dyna beth yr ydym yn gyfrifol amdano. Gallai dyblygu gwybodaeth arwain at fwy o rwystrau, felly mae'n allweddol bwysig ein bod yn canfod ble mae'r wybodaeth bwysig ac yn dangos y ffordd ati.

Dywedodd Meinir y bydd CNC, nawr bod y rheoliadau hyn yn dod i rym, yn gweithio gyda Chyswllt Ffermio i ddeall beth fydd yr wybodaeth, ble y bydd ar gael a phwy fydd yn gyfrifol amdani. Bydd rhannu dolenni hefyd yn bwysig er mwyn i'r wybodaeth gael ei chyfathrebu ar draws y gwahanol sianeli.

Roedd Meinir yn cytuno ag awgrym Sarah Jones yn gynharach ynghylch 'pecyn rhanddeiliaid' a rhoi gwybodaeth uniongyrchol i ffermwyr, sy'n allweddol bwysig ar yr adeg hon. Nododd Meinir, pa faint bynnag o gyfathrebu a wneir trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ni fydd modd cyrraedd pob ffermwr yn y ffordd honno.

Dywedodd y Cadeirydd fod amserlen y gwaith hwn yn bryder allweddol a gofynnodd pryd y byddai'r ffynhonnell wybodaeth gyffredin ar gael. Gofynnodd a fyddai'n barod erbyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 22 Mawrth.

43. Cyfeiriodd Sarah Hetherington at awgrym neu argymhelliad yn un o'r camau gweithredu yn adroddiad yr Is-grŵp, sef y dylid adneuo gwybodaeth am y mater hwn mewn un lle. Cydnabu Sarah y gwaith datblygu polisi ynghylch y cynnig gwe oddi mewn i Lywodraeth Cymru, y wefan beta a lansiwyd a hefyd y gwaith datblygu polisi ynghylch mynediad i wefan CNC. Mae'r cam gweithredu hwn yn nwylo Llywodraeth Cymru o hyd, oherwydd gallai'r polisi gyfyngu ar yr hyn y gellir ei roi ar y wefan ac i'r gwrthwyneb, felly disgwylir ateb ynglŷn â hynny. Dywedodd Sarah fod Andrew a hithau yn ceisio hyrwyddo'r mater y tu allan i'r grŵp hwn, i weld ble fyddai'n lle addas ar gyfer y wefan. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod y dasg hon ar waith ac y byddai'n parhau, ond ar hyn o bryd, defnyddir gwefan bresennol Llywodraeth Cymru yn brif sianel gyfathrebu o ran y dudalen we.

44. Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, fod cam cyntaf y rheoliadau yn dod i rym yn amlwg ar 1 Ebrill 2021 ond ni fydd pob agwedd yn dod i rym tan Awst 2024, felly bydd angen parhau i gyfathrebu rhwng nawr a 2026 er mwyn caniatáu ar gyfer blaengynllunio. Mae angen sicrhau na fydd y lefel gyfathrebu yn gostwng a'n bod ni'n cynllunio'n weithredol ar gyfer cam gweithredu nesaf y rheoliadau. Mae angen i'r pwnc trafod hwn fod yn rhan o amserlen neu agenda gyfathrebu pawb. Gellid diweddarau neu ddiwygio'r 'pecyn rhanddeiliaid' posibl bob blwyddyn i gyfleu'r negeseuon newydd.

Roedd y Cadeirydd yn cytuno a dywedodd fod pobl yn gwneud penderfyniadau yn awr ynghylch materion y bydd y newidiadau yn 2023 a 2024 yn effeithio arnynt. Mae'n bwysig rhannu negeseuon allweddol am yr hyn sy'n mynd i effeithio ar ffermwyr yn awr ar 1 Ebrill 2021 a'r hyn a fydd yn effeithio ar eu busnesau yn y camau sydd i ddod a'r tu hwnt i hynny. I gloi, dywedodd y Cadeirydd y byddai cynllun cyfathrebu priodol yn ddefnyddiol ond yr oedd yn tybio bod gwaith yn dal i ddigwydd arno.

45. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, y gallai rhannu gwybodaeth â'r 16,500 o bobl neu oddeutu hynny sy'n hawlio o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (CTS) fod yn gymharol rwydd ond beth am yr 8,000 o ffermwyr gweithredol nad ydynt yn hawlio CTS neu'r 10,000 o dyddynwyr sydd i gyd yn gorfod llenwi'r ffurflenni hyn. Gofynnodd Dennis sut y bwriedir rhannu'r neges hon â'r holl ffermwyr eraill nad ydynt yn darllen y wasg a'r cyfryngau ffermio. Roedd Spencer yn cytuno bod cyfathrebu yn anodd ond dywedodd fod lefel uchel o arbenigedd cyfunol yn y grŵp hwn a bod Llywodraeth Cymru yn fwy na pharod i wrando os oes gan rywun syniadau eraill i hwyluso'r gwaith cyfathrebu.

46. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai grŵp bach weithio ar rannu rhai o'r negeseuon allweddol hyn rhwng nawr a chyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 22 Mawrth. Byddai modd wedyn i'r grŵp bach hwn rannu'r gwaith â gweddill y grŵp yn y cyfarfod nesaf, er mwyn llunio dull gweithredu cyson.

Gofynnodd Meinir a oes gan Lywodraeth Cymru Swyddog Cyfathrebu sy'n gweithio ar hyn ac os oes, byddai'n well cysylltu â'r swyddog hwnnw yn uniongyrchol, yn hytrach na ffurfio is-bwyllgor o'r Is-grŵp.

PG 05 Mawrth: Bod Meinir Wigley, CNC, yn cysylltu â Chyswllt Ffermio ac unrhyw aelodau eraill o'r Is-grŵp i drafod y cynllun cyfathrebu ynghylch gweithredu'r rheoliadau.

Dywedodd Spencer fod Cyswllt Ffermio yn llunio cynllun ymgysylltu a chyfathrebu ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff hyn i gyd ei roi ar waith a chroesewir unrhyw

awgrymiadau y gellir eu bwydo i mewn i'r broses. Awgrymodd Spencer efallai y gallai Cyswllt Ffermio ddod i gyfarfod nesaf yr Is-grŵp i drafod y mater yn fanylach.

PG 06 Mawrth: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn gwahodd Cyswllt Ffermio i gyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 22 Mawrth i drafod ei gynllun ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y rheoliadau newydd â'r grŵp.

47. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, a fyddai'n bosibl i Spencer rannu ei gyflwyniad PowerPoint o'r cyfarfod heddiw, yn enwedig ynghylch y cynllun cyfathrebu, y cymorth a'r wybodaeth gynghorol. Byddai modd wedyn i CNC feddwl yn fanylach am yr hyn yr hoffem ei weld ym mhob un o'r rhain er mwyn helpu i gefnogi ein dull rheoleiddio. Po fwyaf o gyngor, gwybodaeth a chymorth a ddarperir ymlaen llaw, po leiaf o waith gorfodi sy'n debygol; ac mae hon yn rhan allweddol o'r hafaliad adnoddau. Cytunodd Spencer y gallai ddarparu copi o'r cyflwyniad ond yr oedd y cafeat y soniodd amdano ar ddechrau'r cyfarfod yn berthnasol o hyd; dim ond trosolwg o'r rheoliadau yw hwn i roi syniad o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd. Nid yw'r cyflwyniad hwn yn grynodedb cyfreithiol rwydol o'r rheoliadau ac ni ddylid ei ddefnyddio felly. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ei rannu, os derbynir ei fod yn drosolwg cyffredinol ac y dylid cyfeirio at y rheoliadau i weld y manylion.

PG 07 Mawrth: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn dosbarthu'r cyflwyniad PowerPoint i holl aelodau'r Is-grŵp

48. Mynegodd Creighton Harvey, CFF, ei bryder fod y negeseuon am hyn i gyd, ers i'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau ac ers y bleidlais, wedi bod braidd yn negyddol. Byddai'n dda rhannu negeseuon cadarnhaol, yn enwedig ynghylch gweithredu fesul cam. Awgrymwyd y prynhawn yma nad oedd pawb yn ymwybodol o'r drefn gweithredu fesul cam a'u bod yn edrych ar ochr dywyll y rheoliadau gan anwybyddu agweddau eraill. Ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a roddwyd i'r posibilrwydd o Ymreolaeth Haeddiannol ac mae'n amlwg nad yw ffermwyr ar lawr gwlad wedi clywed bod cyfle i'w cynrychiolwyr gynnig set o fesurau amgen a allai arwain at yr un canlyniad ond mewn modd mwy effeithiol. Mae gwir angen rhannu'r ddwy neges hyn yn glir â ffermwyr.

49. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan rywun arall sylwadau neu gwestiynau. Gofynnodd Bob Vaughan, CNC, a oedd unrhyw aelodau eraill o'r grŵp am fod yn rhan o'r drafodaeth gyda Meinir a Chyswllt Ffermio ynghylch y cynllun cyfathrebu a datblygu dull negeseuon cyson. Gwirfoddolodd Creighton Harvey, CFF, i fod yn rhan o unrhyw drafodaeth ynghylch cyfathrebu.

50. Cadarnhaodd Spencer y byddai'r canllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn fuan ac y byddai modd i bawb gael mynediad atynt. Bydd y negeseuon a'r cyfathrebu yn datblygu o'r fan honno, ond mae'n bwysig rhoi gwybodaeth glir i ffermwyr. Mae Spencer yn derbyn nad yw'r canllawiau llawn ar gael ar y wefan ar hyn o bryd ond nododd fod y ddogfen uchafbwyntiau yn cynnig crynodeb o'r pwyntiau allweddol ar ffurf hawdd ei deall ac yn amlygu'r dull gweithredu fesul cam ynghyd ag amserlen fras.

Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddai'r canllawiau cyflawn ar gael. Dywedodd Spencer fod nod ganddo i'w cwblhau erbyn diwedd yr wythnos nesaf.

51. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, a fydd cyfle i'r Is-grŵp gael golwg ar y canllawiau. Dywedodd Spencer y byddai cyfle, yn ddelfrydol ac yn arferol, ond byddai

hynny'n achosi oedi cyn gweithredu. Dywedodd ei fod yn fodlon gweithio gyda'r grŵp i wella, diweddarau neu newid y 'Cwestiynau Cyffredin' sy'n ddogfen fyw. Dywedodd Spencer, petai angen newid rhywbeth sylweddol yn y canllawiau, y byddai Llywodraeth Cymru yn ei newid pan ddaw'r amser i wneud hynny.

52. Awgrymodd y Cadeirydd pe llwyddid i gwblhau'r canllawiau yr wythnos nesaf, yn unol â'r amserlen, yna gallai'r grŵp eu hastudio'n fanwl cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ac, o bosibl, awgrymu rhai meysydd lle gallem helpu i'w gwella.

Eglurodd Spencer na chaiff y canllawiau eu haddasu yn sgil sylwadau cyn 1 Ebrill, 2021, oherwydd byddai'n rhaid i'r ddogfen fynd trwy broses gymeradwyo ffurfiol cyn iddi gael ei chyhoeddi. Ni chaiff y canllawiau eu haddasu ar sail *ad-hoc* oherwydd byddai cyfnod adolygu ffurfiol yn angenrheidiol.

Eitem 3 Unrhyw fater arall

53. Diolchodd y Cadeirydd i Spencer ac Andrew am eu cyflwyniad, am drafod y rheoliadau a chymryd cwestiynau gan y grŵp. Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n gobeithio y bydd hyn yn gwella ein gallu i ddileu llygredd amaethyddol a chefnogi sector amaeth ffyniannus yng Nghymru, sy'n nod ar y cyd.

54. Cynhelir cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ddydd Llun 22 Mawrth. Byddwn yn edrych ar sut y mae'r rheoliadau'n integreiddio â'n ffrydiau gwaith eraill a sut y gallwn symud ymlaen â'r gwaith hwn a'r meysydd eraill.

Diwedd y Cyfarfod